WELSH WOUND NETWORK
RHWYDWAITH CLWYF CYMRU

Canllawiau Newydd i Gymru: 'Essential Elements of Pressure Ulcer Prevention and Management'.

Mae Fforwm Nyrsys Hyfywedd Meinwe Cymru Gyfan wedi cynhyrchu dogfen ganllaw newydd yn trafod wlserau pwysedd.

Mae'r ddogfen 'Essential Elements of Pressure Ulcer Prevention and Management' ar gael yma www.welshwoundnetwork.org ac mae hi'n seiliedig ar Ganllawiau Wlserau Pwysedd Rhyngwladol diweddar NPUAP ac EPUAP. Nid oedd canllawiau NPUAP ac EPUAP yn cynnig cyngor penodol ar sut i roi'r canllawiau ar waith mewn modd ymarferol gan y gallai pob gwlad wynebu gwahanol heriau wrth geisio rhoi'r canllawiau seiliedig ar dystiolaeth hyn ar waith. Bellach, mae Fforwm Nyrsys Hyfywedd Meinwe Cymru Gyfan wedi cynnig cymorth i ymarferwyr sy'n gweithio yng Nghymru o ran rhoi'r canllawiau wlserau pwysedd hyn ar waith. Mae hyn yn ddatblygiad pwysig yn y gwaith o gyflwyno canllawiau wlserau pwysedd yn Ewrop.

Dyfodol Rhwydwaith Clwyf Cymru

Fel y gŵyr yr aelodau, daeth ffrwd gyllido Rhwydwaith Clwyf Cymru i ben fis Ebrill 2011. Mae'r tîm rheoli wedi bod yn gweithio ar gynnig cyllid newydd i'w gyflwyno gerbron rhaglen Arbenigedd Academaidd i Fusnesau Llywodraeth Cymru fis Awst 2011. Gobeithiwn yn fawr y bydd hyn yn arwain at ragor o gyllid i Rwydwaith Clwyf Cymru o ddiwedd 2011 ymlaen!

CYSYLLTWCH Â RHWYDWAITH CLWYF CYMRU AR
Welsh Wound Network, 237 Capella House, Cardiff CF10 4RE – info@welshwoundnetwork.org
RHEOLWR RHWYDWAITH – Dr Michael Clark, reachmichaelclark@gmail.com

MÖLNLYCKE HEALTH CARE

WELSH WOUND NETWORK
RHWYDWAITH CLWYF CYMRU

Yn ddiweddar, mae Mölnlycke Health Care wedi lansio Ysgoloriaethau'r Academi Clwyfau ar gyfer eleni. Gallwch lawrlwytho manylion llawn y rhaglen yn: www.welshwoundnetwork.org

Bydd cyfarfod blynyddol Panel Cynghori Wlserau Pwysedd Ewrop yn cael ei gynnal maes o law yn Oporto, Portiwgal (31 Awst - 2 Medi 2011). Mae Rhwydwaith Clwyf Cymru yn gobeithio'n fawr y bydd nifer o aelodau yn gallu mynychu'r gynhadledd bwysig hon. Cadwch lygad am gylchlythyr nesaf Rhwydwaith Clwyf Cymru a fydd yn cynnwys newyddion pwysig am yr EPUAP a Chymru! Mae rhaglen lawn y gynhadledd i'w gweld yn www.epuap.org yn adran cylchlythyrau'r wefan.

Bellach, mae Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Defnyddio Systemau Rheoli Ysgarthion ar gael yn Gymraeg. Mae manylion llawn y rhaglen hon ar gael yn: www.welshwoundnetwork.org

Os mae unrhyw newyddion neu storiâu gyda chi am gylchgronau yn y dyfodol, e bostiwch nhw i

info@welshwoundnetwork.org

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund